*This document is available in English* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Hydref 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024/25 i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad o'i berfformiad o dan adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Dylid cynnal yr asesiad yn flynyddol a'i gyhoeddi erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Yn ogystal, mae Atodlen 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gofyn am adroddiad blynyddol sy'n dangos cynnydd yr Awdurdod o ran ei amcanion llesiant.

3 Cymeradwywyd Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2024–2029 ar 15 Gorffennaf 2024, ac mae'n canolbwyntio ar bum egwyddor allweddol, sef: pobl, atal, amddiffyn, ymateb, a'r amgylchedd.

4 Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn nodi amcanion yr Awdurdod ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys sut y bydd yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

5 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol wedi'i atodi i'r adroddiad hwn, gan roi trosolwg o'r gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn lawn a chadarnhau cynnydd yn erbyn amcanion datganedig yr Awdurdod.

## ARSYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Ystyriwyd y Ddeddf Diogelu Plant yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 15 Medi pan fynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch a'r cynnydd mewn tanau gwyllt. Cymeradwywyd cynnwys yr adroddiad i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

7 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Cymeradwyo cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2024/25.**

**CEFNDIR**

8 Cymeradwyodd yr Awdurdod ei CRhRC ar gyfer 2024–2029 yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf 2004. Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer 2024/25 yn nodi'r gwelliannau a'r amcanion arfaethedig y cynhelir yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar eu sail.

9 Er nad yw'r rheoliadau'n rhagnodi ffurf a chynnwys yr asesiad perfformiad, mae'r dull canlynol wedi'i fabwysiadu am resymau cysondeb adrodd ac atebolrwydd:

- Tystiolaeth o'r prosesau y mae'r Awdurdod wedi'u dilyn i gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella fel y'i mynegir yn ei gynllun gwella;
- Crynodeb o asesiad yr Awdurdod o'i gyflawniad yn erbyn yr amcanion gwella;
- Datganiad o berfformiad fel y'i mesurir gan yr holl Ddangosyddion Perfformiad statudol;
- Manylion eraill ynghylch gwybodaeth am berfformiad a'i defnydd, gan gynnwys canlyniadau adolygiadau cymheiriaid, unrhyw asesiadau a wnaed gan Brif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru, a ffynonellau gwybodaeth ansoddol eraill gan gynnwys data meincnodi;
- Asesiad o berfformiad trwy gymhariaeth â pherfformiad yr Awdurdod mewn blynyddoedd blaenorol a thrwy gymharu â chyrff cyffelyb eraill (gan gynnwys awdurdodau tân ac achub eraill), i'r graddau y bo hyn yn ymarferol;
- Manylion am y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi arfer ei bwerau cydweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd, gan gynnwys manylion ynghylch a yw gweithgareddau cydweithredol wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd; ac
- Unrhyw ddatganiadau o weithgareddau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod o ganlyniad i unrhyw adroddiadau a gafwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dan Adran 19 y Mesur yn ystod y flwyddyn adrodd honno.

**GWYBODAETH**

10 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol drafft ar gyfer 2024/25 wedi'i nodi yn y ddogfen sydd ynghlwm. Mae'n rhoi trosolwg o'r adnoddau sydd ar gael i'r Awdurdod i ddarparu ei wasanaethau, gan gynnwys 44 o orsafoedd gweithredol, 53 o beiriannau tân a 949 o bersonél.

7 Yn ystod 2024/25 derbyniwyd cyfanswm o 14,535 o alwadau brys gan arwain at fynd i 6,489 o ddigwyddiadau. Roedd hyn yn cynnwys 1,804 o danau, 3,264 o alwadau diangen a 1,421 o argyfyngau nad oeddent yn danau, gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd. Yn ogystal, cynhaliodd y Gwasanaeth 17,500 o archwiliadau diogel ac iach mewn cartrefi ledled Gogledd Cymru yn rhan o'n hymrwymiad i gadw'r cymunedau'n ddiogel.

8 Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariad cynnydd yn erbyn pob un o'r pum egwyddor a nodir yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol.

9 Mae'r Awdurdod wedi llofnodi'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan, sy'n darparu fframwaith ar gyfer gwella diogelwch yn y cartref er mwyn lleihau nifer ac effaith tanau mewn anheddau domestig. Pan geir tanau, mae'r siarter yn hyrwyddo ymateb effeithiol a phroffesiynol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Cyllideb | Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn sail i'r broses o bennu cyllideb ac yn cyd-fynd â chynlluniau adrannol. |
| Cyfreithiol | Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Staffio | Nod ein Hegwyddor Pobl yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal gweithlu hynod o fedrus, amrywiol a chynhwysol. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. |
| Risgiau | Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn amlinellu pwy rydym yn eu cefnogi ac yn mynd i'r afael â'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau. |